



## Arwyr – CA5

### Tasg 3: Y cyd-destun llenyddol

Arwr poblogaidd ar hyd y canrifoedd yw'r Brenin Arthur. Does neb yn hollol siŵr o'i hanes ac mae'r dirgelwch hwn wedi ychwanegu at y diddordeb ynddo. Mae chwedloniaeth a hanes, ffantasi a ffaith yn codi i'r brig bob tro y bydd yr enw Arthur yn cael ei drafod.

**Tasg:**

Darllenwch y gerdd hon o waith Gwyn Thomas am Arthur.

Atebwch y cwestiynau 'cnoi cil' sydd yn y blwch ar y cyd â'ch partner.



## Arthur y Cymry

Thomas, G (1984) *Wmgawa*, Gwasg Gee: Dinbych (tud 51)

Afallon.

Yn hwyr y dydd hwnnw,

Yn hwyr y dydd hwnnw

A'r haul ar fachludo,

A'r haul ar fachludo

Darfu dwndwr y brwydro,

Darfu dwndwr pob brwydro.

Ger dŵr y dydd hwnnw,

Ger dŵr y dydd hwnnw

A'r haul ar fachludo,

A'r haul ar fachludo

Dacw fo wedi'i frifo,

Dacw frenin pob brwydro.

1. Beth yw ystyr yr is-deitl 'Afallon'?
2. Allwch chi ddod o hyd i ryw wybodaeth am gerdd enwog sy'n dwyn y teitl 'Ymadawiad Arthur' ac sydd hefyd yn cyfeirio at Afallon?
3. Beth yw arwyddocâd y gair olaf yng ngherdd Gwyn Thomas: 'Efallai'?
4. Pa naws sy'n cael ei greu gan yr ailadrodd?
5. Gosodwch yr ymadroddion hyn yn eu trefn amser:

Yn hwyr y dydd	3
Yn y bore bach	1
Yng nglas y dydd	1
Ar doriad gwawr	1
Yn yr oriau mân	5
Yn nyfnder nos	4
Ym mrig yr hwyr	3
A'r haul ar ei anterth	2
Ym mherfeddion nos	4
6. Beth a olygir pan fyddwn ni'n dweud bod rhywbeth '**ar** ddigwydd', e.e. 'a'r haul ar fachludo'?
7. Cynigiwch eiriau arall am 'dwyn' fan hyn
8. Mae'r gair 'mendio' yn dod o'r Saesneg 'to mend' ac yn air tafodieithol. Pa air safonol fyddai'n cyfleu'r ystyr?